National Association for Able Children in Education

Diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru: egwyddorion addysgegol i hyrwyddo her i bawb

Cwestiynau i gynorthwyo adolygiad yr ysgol

- A ydych chi'n cynnig cyfleoedd i ymarferwyr ddatblygu dealltwriaeth ddofn o addysgeg sy'n seiliedig ar dystiolaeth a defnydd doeth o strategaethau penodol?
- A yw eich gweledigaeth ar gyfer cwricwlwm a dysgu yn adlewyrchu repertoire o egwyddorion addysgeg?
- A ydych chi'n cynnwys cyfleoedd ar gyfer dysgu ac asesu sy'n gwneud defnydd o gyd-destunau atyniadol sy'n berthnasol i fywydau plant a'r byd ehangach?
- A ydych chi'n rhoi sylw i ddatblygiad sgiliau a chyfleoedd dysgu annibynnol plant MATh ar gyfer dysgu annibynnol yn yr ysgol a thu hwnt?
- A yw'r arferion addysgu bob dydd yn ystyried yr hyn y mae plant yn ei wybod yn barod yn ogystal â gweld lle mae'r bylchau a'r anghenion?
- A yw'r cynllunio a'r asesu'n adlewyrchu'r dilyniant a ddisgwylir ar gyfer dysgwyr MATh yn ogystal â sicrhau eu bod yn meistroli gwybodaeth a sgiliau craidd?
- A yw'r gwaith cydweithredol a grŵp wedi'i lywio gan resymwaith a chanlyniadau eglur ac yn cael eu hadlewyrchu mewn tasgau a rolau ar gyfer dysgwyr MATh?
- A yw addysgu, dysgu ac asesu'n hybu her ac ymgysylltu gwybyddol drwy feddwl a phrosesau iaith ar haen uwch?
- A yw eich cynlluniau gwaith a'ch templedi cynllunio gwersi yn cynnwys dulliau o ddysgu cynnwys ac o ddysgu i adlewyrchu'r egwyddorion addysgeg?

I archebu datblygiad proffesiynol parhaus, ymgynghoriad neu gymorth mentora i'ch ysgol chi, cysylltwch â
cpd@nace.co.uk | www.nace.co.uk